# Cofnodion y Bwrdd wedi'u Cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Cyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru – Cyhoeddus |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 20 Medi 2018<br>Tŷ Cambria, Caerdydd |
| **Yn bresennol: Aelodau'r Bwrdd** | Dr Madeleine Havard (Cadeirydd dros dro)<br>Clare Pillman (Prif Weithredwr)<br>Karen Balmer (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg)<br>Chris Blake<br>Howard C. Davies<br>Dr Ruth Hall<br>Zoë Henderson (Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth)<br>Andy Middleton (Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig)<br>Nigel Reader<br>Syr Paul Williams |
| **Yn bresennol:** | Ceri Davies (Cyfarwyddwr Gweithredol, Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu)<br>Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol)<br>Tim Jones (Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r Canolbarth a'r Gogledd)<br>Gareth O'Shea (Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r De)<br>Catherine Love (Cyfarwyddwr, Gofal Cwsmeriaid, Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu)<br>Niall Reynolds (Cyfarwyddwr y Portffolio Trawsnewid) |
| **Ymddiheuriadau:** | Howard Davies (Pennaeth Llywodraethu a Chynllunio)<br>Tracey Mayes (Swyddfa'r Prif Swyddog Gweithredol)<br><br>Dr Elizabeth Haywood |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Jenn Jones<br>Rachel Rees |

# Cofnodion y Bwrdd wedi’u Cadarnhau

## 1. Croeso

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig aelodau'r cyhoedd, ac atgoffodd aelodau'r cyhoedd am drefniadau llywodraethu a defodau'r cyfarfod. Byddai cwestiynau a sylwadau'n cael eu derbyn fel yr oeddent wedi'u hamlinellu yn niwedd yr agenda. Byddai cwestiynau a oedd yn fanwl ac wedi'u cyflwyno'n flaenorol yn cael eu hateb yn ysgrifenedig yn dilyn y cyfarfod.

**Ymddiheuriadau**

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Dr Elizabeth Haywood.

**Datganiadau o fuddiannau**

1.3 Ni nodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau newydd. **NODWYD** bod aelodaeth Nigel Reader o Fwrdd Rheoli a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) wedi cael ei hestyn tan ddiwedd mis Mawrth 2019. Mewn perthynas ag Eitem 4 ar yr agenda: nododd Howard C. Davies ei aelodaeth flaenorol o Gymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC); nododd Zoë Henderson ei haelodaeth gyfredol o Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad a'r Gynghrair Cefn Gwlad.

## 2. Cyflwyniad ar faterion lleol

2.1 Gwnaeth Gareth O'Shea gyflwyno John Hogg (Pennaeth Gweithrediadau ar gyfer Canol De Cymru) a'i groesawu i'r cyfarfod. Roedd yno i gyflwyno astudiaeth achos o sut roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gweithio gyda'r gymuned, rhanddeiliaid a'r awdurdod lleol i dynnu rhwystr a oedd yn atal pysgod rhag mudo ar Afon Taf yn Aber-fan.

2.2 Mae tynnu'r gored hon, a thrwy hynny gwella'r amgylchedd, yn ategu'r gwaith o adfer yr ardal. Cafwyd y cyllid ar gyfer y gwaith gan Awdurdod Harbwr Caerdydd fel rhan o'r gwaith i wella pysgodfeydd sy'n gysylltiedig â datblygu Bae Caerdydd, yn ogystal â gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Cyfanswm cost y prosiect oedd £300,000, ac yn dilyn blynyddoedd o gynllunio, cymerodd bum wythnos i'w gwblhau, gan arwain at:

- 10km o gynefin silio'n cael ei wneud yn hygyrch
- Gwella cynefinoedd a stociau pysgod a chreu rhagor o gyfleoedd ar gyfer genweirio
- Gwella cysylltedd ecosystemau
- Manteision ychwanegol – gwelliannau i lwybrau cerdded ar bwys yr afon, gwelliannau i fwynderau a chymorth ar gyfer grwpiau lleol
- Perthynas well ag Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cofnodion y Bwrdd wedi'u Cadarnhau

2.3 Un peth nodedig oedd sensitifrwydd y prosiect hwn mewn perthynas â'r pwll glo  yn Aber-fan, blwyddiannau allweddol, a'r berthynas rhwng y gymuned a'r dirwedd a'r afon.  Cafodd rhyngweithio cryf ac amlochrog y gymuned, ei diddordeb yn y prosiect a'r gefnogaeth mae wedi'i chynnig, ynghyd â'i chysylltiad ag etifeddiaeth ddiwylliannol a diwydiannol yr ardal, eu cydnabod gan aelodau'r Bwrdd. Gwnaeth aelodau'r Bwrdd hefyd nodi'r angen i fonitro ei lwyddiant wrth symud ymlaen a chymhwyso'r gwersi a ddysgir i brosiectau eraill tebyg.

2.4 Tynnodd Ceri Davies sylw at y ffaith fod yr holl afonydd yn cael eu hystyried mewn modd integredig, a bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei annog, drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i ryngweithio ac i ddatblygu prosiectau yn y ffordd hon.  Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn blaenoriaethu pryderon/problemau amgylcheddol ond bydd hefyd yn ystyried blaenoriaethau mewn perthynas â gweithgareddau/gwaith adfer arall yn yr ardal.

2.5 Nododd Gareth O'Shea fod Clwb Genweirio Afon Taf a'r tirfeddiannwr yn gefnogol o'r prosiect.

2.6 Diolchodd y cadeirydd i John Hogg am ei gyflwyniad, ac i dîm ehangach y prosiect am eu holl waith ac ymroddiad.

---

## 3. Cofnodion a logiau gweithredu o gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ym mis Gorffennaf

### 3.1 Cofnodion y Bwrdd

**CYTUNWYD** bod cofnodion cyfarfod busnes y Bwrdd ar gyfer mis Mehefin 2018 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.
**NODWYD** y bydd 4.11: cofnodion cyfarfod mis Mai'r Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd, a bod angen diwygio'r rhifo yn 5.9.

**NODWYD** pwysigrwydd cofnodion sy'n eglur ac yn hygyrch.
***PWYNT GWEITHREDU: Yn y dyfodol, bydd acronymau'n cael eu hegluro mewn cofnodion***

# Cofnodion y Bwrdd wedi'u Cadarnhau

***I'W WEITHREDU GAN: Ysgrifenyddiaeth***

**3.2 Logiau gweithredu Cyfoeth Naturiol Cymru**

Eitem 1 – yn parhau: Amlinellodd y Prif Swyddog Gweithredol gyd-destun y berthynas â Llywodraeth Cymru a'i thrafodaethau diweddar â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n bwysig fod y berthynas rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd yn cael ei deall yn dda.

Eitem 2 – Cyflawnwyd: Cafodd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Adolygu Diogelwch Coedwigoedd ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf. Nid ystyrid bod angen swydd Rheolwr Gweithrediadau Coedwigoedd Cynaliadwy o dan Gynllun y Sefydliad, ac mae'r maes gwaith wedi cael ei ymgorffori mewn rôl arall o fewn y strwythur newydd.

Eitem 3 - yn parhau: Fforwm Rheoli Dŵr - mae'r cylch gwaith wedi cael ei ddosbarthu; bwriedir cynnal cyfarfod ym mis Tachwedd; bydd y Grŵp Pysgodfeydd yn cwrdd ym mis Hydref; mae ffyrdd o weithio wedi'u hintegreiddio'n well o lawer.
***PWYNT GWEITHREDU: Bydd copi o delerau cyfrifoldeb y Fforwm Rheoli Dŵr yn cael ei ddosbarthu unwaith eto.***
***I'W WEITHREDU GAN: Ceri Davies; cyn gynted â phosibl***

Eitem 4 – yn parhau: Papur Adrodd ar Berfformiad ar yr agenda i'w drafod.

Eitem 5 – yn parhau: Mae Kevin Ingram wedi cwrdd â'r Pennaeth Caffael.
***PWYNT GWEITHREDU: Cyflwynir papur ar gaffael yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd***
***I'W WEITHREDU GAN: Kevin Ingram; cyfarfod Bwrdd mis Tachwedd***

Eitem 8 – yn parhau: Dylid ei adnabod fel y Strategaeth Ymgysylltu â Chwsmeriaid.

***PWYNT GWEITHREDU: Cyflwynir papur yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd***
***I'W WEITHREDU GAN:Catherine Love; cyfarfod Bwrdd mis Tachwedd***

Eitem 9 – yn parhau: Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ag Annie Payne dros y ffôn.
***PWYNT GWEITHREDU: Parhau i sicrhau bod y Bwrdd yn cael ei gynnwys ym Menter Ffrindiau Dementia Cyfoeth Naturiol Cymru ac adrodd yn ôl.***
***I'W WEITHREDU GAN: Howard C. Davies; cyfarfod Bwrdd mis Tachwedd***

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cofnodion y Bwrdd wedi'u Cadarnhau

Eitem 10 –
Mae cyfrifoldebau, diddordebau, cysylltiadau ac arbenigedd aelodau cyfredol y Bwrdd wedi cael eu mapio, ond mae angen gwiriad sicrhau ansawdd neu wiriad cywirdeb.
***PWYNT GWEITHREDU: Aelodau'r Bwrdd i wirio'r daenlen ac adrodd yn ôl i Nigel Reader***
***I'W WEITHREDU GAN: Holl aelodau'r Bwrdd; cyn gynted â phosibl***

Eitem 11 – yn parhau: bydd yn cael ei adolygu ymhellach yn sgil prosiect Cynllun y Sefydliad.
***PWYNT GWEITHREDU: I'w gyflwyno i'r Bwrdd ar ôl i brosiect Cynllun y Sefydliad ddod i ben ym mis Mawrth 2019***
***I'W WEITHREDU GAN: Howard Davies; cyfarfod Bwrdd mis Tachwedd***

Eitem 12 – cyflawnwyd: wedi'i ystyried yng nghyfarfod y Tîm Gweithredol a chyfarfod y Bwrdd

Eitem 13 – yn parhau: Bydd gwersi a ddysgwyd yn cael eu hystyried gan y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd ym mis Hydref a bydd papur yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Tachwedd.
***PWYNT GWEITHREDU:*** **Bydd y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd yn adolygu'r gwersi a ddysgwyd;** ***papur i'w gyflwyno i'r Bwrdd***
***I'W WEITHREDU GAN: Y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd; Ceri Davies: cyfarfod Bwrdd mis Tachwedd***

Eitem 14 - yn parhau: Lansiwyd Natur Hanfodol yn Sioe Frenhinol Cymru. Bydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig yn cynnal cyfarfod anstatudol ym mis Hydref i drafod safleoedd gwarchodedig yn eu cyd-destun.
***PWYNT GWEITHREDU: Bydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig yn cynnal trafodaeth ym mis Hydref; rhoddir adborth i'r Bwrdd***
***I'W WEITHREDU GAN: Howard C. Davies; cyfarfod Bwrdd mis Tachwedd***

---

### 4. Adolygiad o'r defnydd o arfau tanio ar Ystad Llywodraeth Cymru

**Papur: NRW B B 43.18**
**I'w benderfynu**
**Gofynnir i'r Bwrdd ystyried gweithredu cais y Gweinidog fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi'r gorau i brydlesu hawliau saethu ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.**

4.1 Ymunodd Chris Tucker â'r cyfarfod i gyflwyno'r papur ac i ddarparu cymorth technegol ar gyfer trafodaeth y Bwrdd.

4.2 **NODWYD** i'r holl argymhellion o'r adolygiad o'r defnydd o arfau tanio ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru gael eu cytuno, ac i ddatganiad sefyllfa gael ei gymeradwyo, yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf. Nododd y datganiad sefyllfa y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i ystyried prydlesu'r hawliau ar gyfer saethu ffesantod, hela adar a gweithgareddau eraill sy'n cynnwys arfau tanio fesul achos ac yn amodol ar rai amodau penodol, gan gynnwys bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn adennill y costau sydd ynghlwm â'r gwaith o gytuno ar y prydlesau, eu rheoli a'u monitro.

4.4 Yn yr un cyfarfod, **NODODD** y Bwrdd hefyd safbwynt Llywodraeth Cymru, a gafodd ei rannu mewn llythyr oddi wrth y Gweinidog dros yr Amgylchedd at Clare Pillman (Prif Swyddog Gweithredol) ar 9 Gorffennaf 2018. Yn y llythyr, gofynnwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried peidio ag adnewyddu prydlesau ar gyfer saethu ffesantod neu gadw adar mewn corlannau ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar y safbwynt polisi clir nad yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi saethu ffesantod at ddibenion masnachol, na bridio adar gêm na chadw adar mewn corlannau dal ar yr ystad. Roedd llythyr y Gweinidog yn cydnabod hela adar fel ffordd o reoli safle, ond codwyd pryderon ynddo ynghylch saethu rhywogaethau a warchodir. Gofynnodd hi i adaregwyr Cyfoeth Naturiol Cymru archwilio effaith hela adar ar rywogaethau mwy prin o adar.

4.5 **NODWYD** bod cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu a'i fod wrthi'n cael ei weithredu, i alluogi'r gwaith o gyflawni'r datganiad sefyllfa a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018. Mae'r gwaith hyd yn hyn wedi cynnwys:

- drafftio cyfarwyddyd desg newydd ynghylch egwyddorion rheoli bywyd gwyllt yn foesegol
- nodi arweinydd ar gyfer grŵp cynghori ar getris a bwledi plwm
- rhoi'r dasg i arbenigwyr Cyfoeth Naturiol Cymru o adolygu'r hela adar sy'n digwydd ar safleoedd yr ydym yn eu rheoli

4.6 Yn ogystal, **NODWYD** i dîm adolygu Cyfoeth Naturiol Cymru gwrdd â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru i geisio eglurhad ynghylch y materion a godwyd yn llythyr y Gweinidog. Arweiniodd hyn at bedwar argymhelliad yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd er mwyn iddo wneud penderfyniad:

**Argymhelliad 1:** Bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi'r gorau i brydlesu hawliau saethu ffesantod ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru (gydag effaith o 1 Mawrth 2019, pan fydd y prydlesau cyfredol yn dod i ben). Pan fydd deiliad prydles cyfredol yn nodi effaith sylweddol ar ei fusnes, neu pan fydd yn wynebu costau y tu hwnt i gyfnod y brydles sy'n

weddill, dylai Cyfoeth Naturiol Cymru gynnig estyniad o flwyddyn i'r brydles er mwyn caniatáu i ddeiliad y brydles wneud newidiadau. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw weithgareddau bridio, magu, dal neu saethu ffesantod yn cael eu cynnal ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

4.6.1 **NODWYD** bod un deiliad prydles eisoes wedi dweud y byddai'n gofyn am estyniad. Lleisiwyd pryderon ynghylch trin deiliaid prydlesau mewn modd teg a chydraddol. Cadarnhawyd y gallai estyniad fod yn opsiwn ar gyfer pob deiliad prydles am gyfnod heb fod yn hwy na blwyddyn pe bai achos clir i'w ystyried. Fodd bynnag, **NODWYD** nad oedd yr un o'r prydlesau ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn cynrychioli unrhyw gyrch hela yn ei gyfanrwydd; nodwyd hefyd yn y trafodaethau y dylai unrhyw fusnes sydd â phrydles tymor byr fod â chynlluniau busnes sy'n adlewyrchu'r sefyllfa hon. **DERBYNIWYD** y byddai estyn prydlesau'n mynd yn groes i'r safbwynt polisi mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddatgan a'i dymuniadau fel tirfeddiannwr.

**PENDERFYNIAD:** Ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig estyniadau ar gyfer prydlesau cyfredol a bydd yn ymatal rhag prydlesu hawliau saethu ffesantod ym mis Mawrth 2019.

**Argymhelliad 2:** Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn caniatáu, drwy roi caniatadau, y gweithgaredd o yrru adar o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â gweithgaredd saethu ar dir trydydd parti gerllaw.
Ym mhob achos, mae'r tir sy'n cael ei brydlesu gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhan o weithgareddau saethu ehangach. Disgwyliwn y bydd ffesantod yn parhau i ddefnyddio'r coedwigoedd ar ôl i'r prydlesau gael eu hatal. Mae ffesantod ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru nad ydynt yn cael eu rheoli gan giperiaid yn creu perygl o weithgareddau saethu ar yr ystad nad ydynt wedi cael eu hawdurdodi. Mae caniatáu i dirfeddianwyr cyfagos yrru ffesantod o'r coedwigoedd yn lleihau'r perygl hwn.

4.6.2 Trafodwyd y gwahaniaeth rhwng codi adar a gyrru adar drwy ardal. **NODWYD** bod symudiadau adar yn tueddu i fod yn gysylltiedig ag argaeledd bwyd a chorlannau i gysgodi ynddynt. Roedd yn anochel y byddai adar o dir cyfagos yn cyrraedd tir Cyfoeth Naturiol Cymru, ac roedd angen gwneud penderfyniad ynghylch sut y byddai'r adar hyn yn cael eu rheoli. Cafodd bwriad Llywodraeth Cymru, fel y'i mynegwyd yn llythyr y Gweinidog, ei ystyried unwaith eto.

**PENDERFYNIAD**: Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried ceisiadau am ganiatâd i gael mynediad at y tir mae'n ei reoli i yrru adar o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, ar yr amod nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gweithgareddau saethu, h.y. yn uniongyrchol o flaen gynnau.

**Argymhelliad 3:** Caiff y broses o brydlesu hawliau i saethu adar hela ei hadolygu pan fydd yr effeithiau posibl ar rywogaethau a warchodir yn hysbys (h.y. nes y bydd adaregwyr Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud gwaith ar effeithiau hela adar ar rywogaethau adar prin: adar sydd ar y rhestr goch ac oren).

4.6.3 **NODWYD** bod staff Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dechrau edrych ar gwmpas y gwaith hwn, a bydd cynllun prosiect yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.

**PENDERFYNIAD**: **CYMERADWYWYD** yr argymhelliad

***PWYNT GWEITHREDU: Bydd cynllun prosiect yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Tachwedd***
***I'W WEITHREDU GAN: Ceri Davies; cyfarfod Bwrdd mis Tachwedd***

**Argymhelliad 4:** Yn unol â datganiad sefyllfa Cyfoeth Naturiol Cymru (a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018), bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i ystyried ceisiadau am ganiatâd i reoli rhywogaethau gwyllt sy’n effeithio ar amcanion rheoli tir cyfagos a hynny drwy ddefnyddio arfau tanio ar y tir a reolir gennym.

4.6.4 **NODWYD** bod angen rheoli rhywogaethau gwyllt ar adegau er mwyn bodloni amcanion rheoli tir. Gallai hyn gynnwys defnyddio arfau tanio ar y tir rydym yn ei reoli.

**PENDERFYNIAD**: **CYMERADWYWYD** yr argymhelliad

---

## Cwestiynau/sylwadau gan aelodau'r cyhoedd

Tynnodd Mr Rubin Irvine sylw at gŵyn ac apêl roedd wedi'u cofrestru gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, yr oedd yntau'n teimlo eu bod wedi cael eu hanwybyddu. Roedd o'r farn y byddai plannu coed a gynllunnir yn ei ardal yn cael effaith niweidiol ar gynefinoedd a bywyd gwyllt. Tynnodd sylw at y ffaith fod ecolegwyr o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno ag ef, ond nid oedd eu pryderon wedi cael eu hystyried pan roddwyd caniatâd i blannu gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Dywedodd nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn

gweithio gyda phobl leol na'r gymuned yn yr ardal hon, fel y cafodd ei ddatgan a'i ganmol yn y cyflwyniad ar ddechrau'r cyfarfod.

Ymddiheurodd y Cadeirydd i Mr Irvine. Gwnaeth hi gadarnhau yr ymchwiliwyd i'w bryderon a chytuno nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymateb mewn modd priodol. Roedd y Prif Weithredwr wedi rhoi mesurau gwirio ar waith o ran gweithdrefnau a bydd gwersi'n cael eu dysgu o brofiad y cwsmer hwn. Cadarnhawyd bod cyfarfod ag uwch-swyddogion eisoes wedi cael ei drefnu gyda Mr Irvine i drafod y mater ymhellach.

Gwnaeth Mr David Grimsell sylwadau ar y drafodaeth ynghylch Argymhelliad 2 (Eitem 4 ar yr agenda). Ei ddealltwriaeth ef oedd bod adar wedi'u bridio ar gyfer saethu a oedd yn crwydro i dir arall yn peidio â bod yn eiddo perchnogion y cyrch saethu.

Gwnaeth Mr Gareth Wardell ganmol y prosiect ar Afon Taf, tynnu sylw at agweddau diwylliannol a hanesyddol yr ardal a phwysigrwydd yr ardal, a chymeradwyo'r sensitifrwydd a ddangoswyd i'r gymuned. Fodd bynnag, roedd ei brif sylw'n gysylltiedig â gwybodaeth gyhoeddus am gyfarfodydd y Bwrdd, y dywedodd yntau y dylai gael ei gwneud ar gael ar y wefan cyn gynted ag y bo modd. Roedd yn teimlo y dylid gwneud manylion cyswllt y Bwrdd ar gael yn helaeth ac anogodd aelodau Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru i weithio mewn ardaloedd penodol ledled Cymru.

Gofynnodd Ms Rachel Evans pa asesu o'r effaith economaidd oedd wedi cael ei gynnal o'r broses o ddod â phrydlesau saethu i ben (Argymhelliad 1, Eitem 4 ar yr agenda). Gwnaeth hi bwysleisio'r ffaith y byddai'r penderfyniad hwn yn cael effaith sylweddol ar fusnesau a ffordd o fyw mewn ardaloedd gwledig lle roedd cael swyddi'n anodd. Roedd hi'n chwerw o siomedig fod aelod o'r Bwrdd o'r farn y gellid dod ar draws ffordd arall o 'fyw oddi ar y tir' yn fuan iawn i wneud iawn am golli'r busnes hwn.
Eitem 4 – Cwestiynau/sylwadau gan aelodau'r cyhoedd: Ms Rachel Evans
***PWYNT GWEITHREDU:*** **Gofynnwyd i gwynion gael eu rhoi gerbron y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth er mwyn monitro strategaeth gwasanaeth cwsmeriaid / ymgysylltu â chwsmeriaid.**
***I'W WEITHREDU GAN:*** **Catherine Love**

## 5. Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 (papur/cyflwyniad)

**Papur: NRW B B 44.18**

**Gwaith craffu**

**Craffu ar berfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn chwarter cyntaf 2018–19 yn erbyn yr ymrwymiad yn ei Gynllun Busnes, gan ddefnyddio'r dangosfwrdd y cytunwyd arno.**

5.1 Cyflwynodd Mark Hughes yr adrodd ar y rownd gyntaf yn erbyn ein Cynllun Corfforaethol newydd a'n Cynllun Busnes ar gyfer 2018–19. Tynnwyd sylw at y ffaith fod ein mesurau'n gysylltiedig â'n blaenoriaethau fel y'u hamlinellir yn ein llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru a'r cynlluniau, ac mae ein dangosfwrdd perfformiad wedi'i drefnu i gofnodi hyn.

5.2 Mae gennym 35 mesur dangosfwrdd wedi'u llunio ar sail ein Cynllun Busnes a'r saith Amcan Llesiant rydym yn gweithio yn unol â nhw. Rydym wedi cyflwyno pum lefel perfformiad – Coch, Coch/Oren, Oren, Oren/Gwyrdd a Gwyrdd – i nodi'r ystod o ganlyniadau perfformiad ar gyfer pob chwarter.

Nodwyd y mesurau perfformiad canlynol:

i. Coch: dim

ii. Coch/Oren: Ymateb i ddigwyddiadau – cael trafferth cau achosion o fewn 30 diwrnod, gweithio gyda thimau lleol i oresgyn rhwystrau.

iii. Coch/Oren: Rhaglen cronfeydd dŵr – mae newid i ddeddfwriaeth yn golygu ein bod yn nodi ac yn rheoli rhagor o gronfeydd, mae rhaglen waith sylweddol, disgwylir i'n perfformiad ni wella wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.

iv. Oren: Rheoli asedau llifogydd – ni fodlonwyd y targed o 99% (97.5% ar hyn o bryd). Mae gennym raglen o waith cynnal a chadw a gwelliannau cyfalaf. Rydym yn disgwyl y bydd nifer yr asedau nad ydynt yn cael eu trwsio yn ystod y chwarter cyntaf yn derbyn sylw yn yr ail chwarter ynghyd a'r rhai a oedd wedi cael eu cynllunio eisoes. Mae'r Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd yn adolygu hyn.

v. Oren: Monitro a mynd i'r afael ag iechyd coed a phlanhigion – nid yw'r targed o 90% o hysbysiadau i'w rhoi o fewn 30 diwrnod i gadarnhau'r clefyd wedi'i fodloni; mae ar 60% ar hyn o bryd.

vi. Oren: Cynllun y Sefydliad – mae hyn yn oren gan na wnaethom gwblhau'r dyluniad manwl erbyn diwedd mis Mehefin 2018. Mae'r rhaglen yn parhau i fod ar y trywydd iawn.

vii. Gwyrdd: Gweithredu Natur Hanfodol – cafodd ein harweiniad strategol ar fioamrywiaeth, sef 'Natur Hanfodol', ei lansio yn Sioe Frenhinol Cymru.

viii. Gwyrdd: Sefydlu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy – ein diben yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac mae rhaglen hyfforddiant traws-sefydliadol yn cael ei chynnal i ymgorffori hyn yn ein ffyrdd o weithio.

ix. Gwyrdd: Llunio a gweithredu Cynlluniau Rheoli Basn Afon – Gwnaethom lansio ein hymgynghoriad ar Gynlluniau Rheoli Basn Afon 2021–27 ar 22 Mehefin 2018, ac yn ystod y mis hwn gwnaethom gyhoeddi dosbarthiad dros dro Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2018 ar gyfer dŵr croyw.

5.3 Gwnaeth y Prif Swyddog Gweithredol sylwadau ar nifer o fesurau:

- Roedd nifer fawr o ddigwyddiadau yn ystod y chwarter hwn, gyda'r tywydd sych yn arwain at danau gwyllt a lefelau dŵr isel, sydd wedi cael effaith sylweddol. Rydym wedi gweithio'n dda gyda chwmnïau dŵr mewn perthynas â rheoli sychder ac rydym yn parhau i wneud hynny. Rydym wedi cefnogi a gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill mewn perthynas â thanau gwyllt, ac rydym wedi cytuno bod gwersi eraill i'w dysgu.
- Hyd yn hyn, mae bron hanner staff Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mynychu'r cwrs hyfforddiant deuddydd ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
- Gwnaeth canlyniadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn 2015 dangos bod 36% o gyrff dŵr yn dda, ac mae hyn bellach wedi cynyddu i 41%.
- Mewn perthynas ag iechyd coed a phlanhigion, rydym yn parhau i fonitro ymlediad *Phytopthora ramorum*, gyda chynnydd yn nifer yr achosion o'r clefyd a gafodd eu cofnodi ar gyfer y chwarter hwn; rydym yn cefnogi staff i gau'r achosion hyn. Mae'r ffordd rydym yn cofnodi achosion o'r clefyd wedi newid hefyd: rydym bellach yn cofnodi achosion o'r clefyd ym mhob coetir, nid ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn unig; mae hyn wedi arwain at oblygiadau o ran adnoddau a ddylai dderbyn sylw drwy brosiect Cynllun y Sefydliad.

5.4 Gwnaeth aelodau'r Bwrdd **NODI** yr Adroddiad Perfformiad ar gyfer y chwarter cyntaf a chanmol y tîm am y cyflwyniad a'r broses fonitro. Lleisiwyd pryderon ynghylch pa mor realistig oedd rhai targedau. Tynnwyd sylw at y mesur ar gyfer asedau llifogydd fel enghraifft o fesur a oedd yn parhau i fethu â bodloni'r targed. Yn ystod y trafodaethau, **CYTUNWYD** bod targedau o'r fath yn bwysig er mwyn dangos uchelgais, codi ymwybyddiaeth o'r materion a oedd yn gysylltiedig â'r mesur, a sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu mewn modd priodol.

5.5 Lleisiwyd pryderon fod rhai targedau'n cael eu rhoi yn y categori 'ddim yn berthnasol' – yn enwedig boddhad cwsmeriaid a thystiolaeth. **CYTUNWYD** bod angen adrodd am y rhain mewn ffordd wahanol.
***PWYNT GWEITHREDU: Rhoddir sylw i feysydd sydd wedi cael eu rhoi yn y categori 'ddim yn berthnasol' yn yr adroddiad***
***I'W WEITHREDU GAN: Mark Hughes; cyn cyfarfod bwrdd mis Rhagfyr***

5.6 Gofynnwyd cwestiwn ynghylch y llythyr cylch gwaith ar gyfer 2018–19 ac a oeddem yn bodloni'r gofynion ar gyfer gweithio gydag Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol. **NODWYD** bod angen rhoi sylw i'r mater hwn ac awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig arwain y gwaith hwn.
***PWYNT GWEITHREDU: Ymchwilio i'r ymatebion i'r llythyr cylch gwaith mewn perthynas ag Awdurdodau Parc Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol***
***I'W WEITHREDU GAN: Ceri Davies a'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig; cyn gynted â phosibl***

5.7 Cafodd y broses ar gyfer craffu manwl ar yr Adroddiadau Perfformiad Chwarterol ei thrafod, yn benodol y disgrifiadau naratif, a **CHYTUNWYD** y gallai'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth wneud y gwaith hwn.

***PWYNT GWEITHREDU: Anfonir yr Adroddiadau Perfformiad Chwarterol at y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth ar gyfer craffu manwl***
***I'W WEITHREDU GAN: Mark Hughes; ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth ym mis Rhagfyr***

5.8 Canmolodd y Cadeirydd yr Adroddiad Perfformiad ar gyfer y chwarter cyntaf, gan nodi'r tueddiadau, a oedd yn gadarnhaol at ei gilydd, ond gan gadarnhau bod angen gwella'r cofnodi a'r ffocws ar gyfer rhai meysydd. Teimlid bod yr adrodd yn adlewyrchu ffyrdd newydd o weithio Cyfoeth Naturiol Cymru'n dda, a diolchwyd i'r tîm am eu hymdrechion.

## 6. Unrhyw faterion eraill

6.1 Ar ran y Bwrdd, anfonodd y Cadeirydd y dymuniadau gorau ar gyfer gwellhad cyflym at Geri Mills yn y Tîm Ysgrifenyddiaeth, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.
6.2 Gan mai dyma oedd cyfarfod olaf y Bwrdd a gynhelir yn gyhoeddus ar gyfer rhai aelodau, cynigiodd y Cadeirydd ddymuniadau da ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru i'r aelodau

# Cofnodion y Bwrdd wedi'u Cadarnhau

hynny y mae eu tymor yn y rôl yn dod i ben ar ddiwedd mis Hydref, sef Dr Ruth Hall, Andy Middleton, Nigel Reader a Syr Paul Williams.

6.3 Diolchodd y Prif Swyddog Gweithredol hefyd i Madeleine Havard, sydd ymhlith yr aelodau Bwrdd hynny sy'n gadael ym mis Hydref, yn enwedig am ei gwaith fel Cadeirydd dros dro. Byddai llun mewn ffrâm yn cael ei gyflwyno i holl aelodau'r Bwrdd a oedd yn gadael, sef *Lake and Mountains:Llyn y Dywarchen in Snowdonia* gan Rhys Hughes, a enillodd cystadleuaeth ffotograffiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru y llynedd.

**7. Diwedd y cyfarfod cyhoeddus**

7.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r holl staff am eu cyflwyniadau o safon uchel a'u mewnbwn yn y cyfarfod, ac i holl aelodau'r Bwrdd a'r Weithrediaeth am eu rhan yn y trafodaethau. Daeth y cyfarfod ffurfiol i ben.